



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GODI ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER YSGOL GYNRADD HIRWAUN A'R CYNLLUN ARFAETHEDIG I NEWID STATWS CYFRWNG IAITH YSGOL GYNRADD GYMUNED PENDERYN, O 1 MEDI 2021

## Cynnwys

### Cyflwyniad i'r Cynnig

Â phwy byddwn ni'n ymgynghori?	3
Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?	4
Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried	4
Sut mae lleisio'ch barn?	5

## Cefndir i'r Cynnig

Gwybodaeth am yr ysgolion – Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	6
Gwybodaeth am yr ysgolion – Ysgol Gynradd Hirwaun	9
Beth yw sail y Cynnig yma?	12
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA/WESP)	12
Beth yw'r ddadl addysgol dros newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn a chynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun?	13
Beth fydd y Cynnig yma'n ei olygu i ddisgyblion yr ysgolion?	14
Newidiadau i ddalgylchoedd	14
Polisi cludo disgyblion	16
Beth fydd effaith debygol y cynigion ar staff yr ysgolion?	17
Beth fydd effaith debygol y cynnig ar gymunedau Penderyn ac Hirwaun?	17
Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?	18
Beth yw anfanteision y cynnig yma?	18
Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?	19
Llywodraethu	19
Yr Adeilad Ysgol Arfaethedig	19
Beth yw'r broses statudol?	20
Mapiau'r dalgylchoedd	22
Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad	24

## **Cyflwyniad i'r Cynnig**

---

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar gynnig ar y cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn a chynyddu capasiti Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd hyn yn digwydd trwy godi adeilad newydd

ar safle Ysgol Gynradd Hirwaun, i ddisodli'r adeilad presennol, a byddai Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn troi'n ysgol gynradd gymuned cyfrwng Cymraeg yn llwyr. Yn rhan o'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i fod yn gyfrwng Cymraeg yn unig, y bwriad hefyd yw ehangu dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (sef dalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Rydym yn bwriadu gweithredu'r newidiadau dalgylch yma ar y 1af o Fedi 2020. Y cynnig yw y byddai disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun (gan ddibynnu ar ddewis rhieni) ar 1 Medi 2021. O'r 1af o Fedi 2019, ni fydd unrhyw disgyblion a hoffwn gael ei addysg trwy'r gyfrwng Saesneg yn cael ei derbyn i Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn.

### ***Â phwy byddwn ni'n ymgynghori?***

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Rhieni, cynhalwyr (gofalwyr), ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Cyrff llywodraethu'r ysgolion cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau'r Cynulliad ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol etholaethau Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Consortïwm Canolbarth y De – Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Rhaglen Cymorth Cymunedau am Waith a Mwy
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
- Comisiynydd y Gymraeg
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Awdurdodau Lleol Cyfagos

### ***Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?***

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 1 Hydref 2018 a chaiff ei gwblhau am 5pm ar 31 Rhagfur 2018. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2019. Bydd yr adroddiad yma ar gael i

bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copiâu papur ar gael ar gais (gweler y manylion ar dudalen 5 o'r ddogfen yma).

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu – yn seiliedig ar yr adborth – a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu cyfnod hysbysu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o'r diwrnod penderfynu. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copiâu ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen 5 o'r ddogfen yma.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynnig yma, y dyddiad gweithredu yw 1 Medi 2020 ar gyfer y newidiadau i dalgylch y disgyblion cyfrwng Cymraeg, a'r 1af o Fedi 2021 ar gyfer darpariaeth yr adeilad newydd yn Hirwaun.

### ***Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried***

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg dros y newid arfaethedig i ddarpariaeth addysg gynradd yn Hirwaun a Phenderyn. Byddai'n dda gyda ni pe beach chi'n ystyried yr wybodaeth sy'n rhan o'r ddogfen yma, ac yn rhoi'ch barn ar y cynnig – boed honno o blaid neu yn erbyn – i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ynghyd â'r cynnig i ehangu'i dalgylch, ac i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Hirwaun. Byddai hyn yn digwydd trwy godi adeilad newydd ar safle Ysgol Gynradd Hirwaun, i ddisodli'r adeilad presennol, a byddai Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn troi'n ysgol gynradd gymuned cyfrwng Cymraeg yn llwyr. Byddai'i dalgylch yn ymestyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun. Y cynnig yw y byddai disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun (gan ddibynnu ar ddewis rhieni) ar 1 Medi 2021.

Y cynnig yw disodli adeiladau presennol Ysgol Gynradd Hirwaun, a chodi adeilad newydd yn unol â safon rhaglen 21<sup>ain</sup> Ganrif ar safle'r ysgol bresennol. Byddai lle i 390 o ddisgyblion (ynghyd â meithrin) a Saesneg fyddai'r cyfrwng iaith. Yn ogystal â hynny newid categori iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol y ddwy iaith i ysgol gynradd gymuned Gymraeg gyda lle ar gyfer 231 o ddisgyblion (ynghyd â meithrin), a Chymraeg fyddai'r cyfrwng iaith.

### *Sut mae lleisio'ch barn?*

Bydd achlysuron ymgynghori yn cael eu cynnal, a bydd croeso i chi ddod i'r cyfarfod priodol.

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Y ddwy ysgol a'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Iau 27 Tachwedd 2018 / 3pm-6pm	Ysgol Gynradd Hirwaun

Mae holiadur ymgynghori wedi'i gynnwys. Bydd hwn ar gael hefyd yn y sesiwn galw heibio uchod ac ar wefan y Cyngor:

[www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauYnglŷnAgYsgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauYnglŷnAgYsgolion)

Yn yr holiadur hefyd, mae modd i chi gofrestru'ch dymuniad i gael eich hysbysu am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad i Gabinet y Cyngor.

Mae hefyd croeso i chi roi eich barn, neu ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gyda chi mewn ysgrifen at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
 Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
 Tŷ Trevithick

Dylai pob gohebiaeth ddod i law **erbyn 5pm ddydd Iau 31 Rhagfur 2018.**

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

## Cefndir i'r Cynnig

---

### *Gwybodaeth am yr ysgolion – Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn*

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn ysgol gynradd gymunedol ddwy iaith ym Mhontprenllwyd, Penderyn, ychydig filltiroedd o dref Aberdâr. Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad a gafodd ei agor yn 2006 ynghyd ag Ardal Gemau Aml-ddefnydd ac ardal o dir coediog. Yn seiliedig ar arolwg o adeiladau pob ysgol sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn wedi'i graddio'n B o ran cyflwr, ac A o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Y ffigur presennol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw y byddai'n ddymunol ei gynnal yn yr ysgol yw £165,995.

Mae i'r ysgol ddwy ffrwd iaith. Mae rhieni yn dewis i'w plant astudio gwersi naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion (gan gynnwys meithrin) yn y ffrwd Gymraeg wedi cynyddu i 179, tra bod y nifer wedi gostwng i ddim ond 54 yn y ffrwd Saesneg. O blith y 54 o ddisgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, dim ond 22 ohonyn nhw sy'n byw yn nalgylch Penderyn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion (27 o ddisgyblion) yn byw o fewn dalgylch Hirwaun. Mae 9 dosbarth yn yr ysgol, 6 yn rhai cyfrwng Gymraeg a'r 3 arall yn gyfrwng Saesneg.

Mae nifer y disgyblion sydd wedi mynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn dros y pedair blynedd diwethaf yn cael ei dangos isod. Mae'r rhain yn dod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) y mae'n orfodol i'w gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Dydy'r niferoedd ddim yn cynnwys plant oedran meithrin, oherwydd ei bod hi'n ofynnol i ni beidio â chynnwys y rhain yn y tabl o dan God Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydyn ni wedi dangos nifer y plant meithrin ar wahân. Mae'r holl ddata yn cael ei rannu rhwng adrannau Saesneg (S) a Chymraeg (C) yr ysgol:

Ysgol	Ystod oedran yr ysgol gyfan	Ion 2014	Ion 2015	Ion 2016	Ion 2017	Ion 2018
Ysgol Gynradd Penderyn (C)	3–11	138	146	150	159	162

Ysgol Gynradd Penderyn (S)	3–11	58	59	57	56	51
----------------------------	------	----	----	----	----	----

Nodwch: 231 yw capasiti disgyblion yr ysgol (ac eithrio meithrin) – mae hyn yn cynnwys y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

Nifer y disgyblion meithrin (cyfanswm y disgyblion)

Ysgol	lon 2014	lon 2015	lon 2016	lon 2017	lon 2018
Ysgol Gynradd Penderyn (C)	28	23	24	23	17
Ysgol Gynradd Penderyn (S)	12	2	4	4	3

Dros y pum mlynedd nesaf, y rhagolygon o ran y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (sydd wedi'u cyfrifo yn unol ag arweiniad sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru) yw fel a ganlyn:

Ysgol	lon 2019	lon 2020	lon 2021	lon 2022	lon 2023
Ysgol Gynradd Penderyn (C)	167	160	162	152	150
Ysgol Gynradd Penderyn (S)	46	47	41	36	38

### Safonau'r Ysgol Gynradd

Mae'r tablau isod yn nodi cyflawniad y ffrydiau Cymraeg a Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn mewn perthynas â chyflawniad addysgol dros y tair blynedd diwethaf ac yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar y niferoedd o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen						
Pynciau	2015 %		2016 %		2017 %	
	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	92 (2)	100 (1)	95.2 (1)	90 (3)	96.4 (1)	100 (1)
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywioldeb	100 (1)	100 (1)	100 (1)	90 (4)	100 (1)	100 (1)

Sgiliau laith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg/Cymraeg)	96 (2)	100 (1)	95.2 (2)	90 (3)	96.4 (2)	100 (1)
Datblygiad Mathemategol	96 (1)	100 (1)	100 (1)	90 (3)	100 (1)	100 (1)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgolion ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarteli meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.*

Deilliannau Cyfnod Allweddol 2						
	2015 %		2016 %		2017 %	
Pynciau	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)
Saesneg	88.2 (3)	100 (1)	94.4 (2)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)
Cymraeg laith Gyntaf	88.2 (3)	Dd/B	94.2 (2)	Dd/B	95.5 (2)	Dd/B
Mathemateg	88.2 (3)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)
Gwyddoniaeth	88.2 (3)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	96.8 (3)	88.9 (4)
Dangosydd Pwnc Craidd	88.2 (3)	100 (1)	94.2 (2)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl drosodd yn cymharu'r ysgolion ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarteli meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.*

Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf wedi'i nodi isod:

Canran y sesiynau hanner diwrnod a gafodd eu mynychu gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academaidd						
Ysgol	2015	Chwarter Meincnod 2015	2016	Chwarter Meincnod 2016	2017	Chwarter Meincnod 2017
Ysgol Penderyn (ysgol gyfan)	94.2	4	94.6	3	94.6	4
Ysgol Gynradd Penderyn (C)	94.7	3	94.8	3	94.8	4
Ysgol Gynradd Penderyn (S)	93	4	94	4	94.5	4



Cafodd Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ei harolygu gan Estyn ym mis Ebrill 2018, a'r canlyniadau oedd:-

<u>Maes arolygu</u>	<u>Dyfarniad</u>
Safonau	Da
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Da
Profiadau addysgu a dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cefnogaeth a rhoi arweiniad	Da
Arwain a rheoli	Da

Nododd Estyn y dylai'r ysgol wneud y canlynol, er mwyn adeiladu ar y gwaith sydd ohoni:

- A1** Mireinio gweithdrefnau monitro a hunanarfarnu, gan sicrhau bod yr adroddiadau yn amlygu rhinweddau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn glir
- A2** Gwneud yn siŵr bod gweithdrefnau cynllunio yn sicrhau cyflawniad priodol o'r cwricwlwm dros gyfnod, a'u bod yn ddefnyddiol i athrawon mewn sesiynau ar lawr dosbarth
- A3** Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu holl egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gyson

Mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor wedi cael eu darparu gan Gonsortiw Canolbarth y De, sef gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer y pum awdurdod, hynny yw, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae ysgolion yn cael eu graddio yn ôl lliwiau Gwrdd, Melyn, Ambr neu Goch o ran eu safonau. Mae'r lliw yn dangos y lefel o gefnogaeth a chymorth sydd eu hangen ar yr ysgol (mae eisiau llai o gymorth ar ysgolion sy'n cwmpo o dan y categori gwyrdd, gyda'r ysgolion sydd angen y cymorth dwys mwyaf yn dod o dan y categori coch). Caiff pob ysgol raglen wedi'i chynllunio'n benodol o gymorth, her ac ymyrraeth yn seiliedig ar y categori yma. Mae'r Consortiw yn categoreiddio cyflawniad pob ysgol yn y rhanbarth, ac mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn wedi cael ei nodi yn ysgol 'Felen'.

### ***Gwybodaeth am yr ysgolion – Ysgol Gynradd Hirwaun***

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn Ysgol Gymuned cyfrwng Saesneg yn Stryd Glan-nant, Hirwaun, Aberdâr. Ar safle'r ysgol mae dau adeilad un-llawr parod ar wahân, gan gynnwys rhannau concriid wedi'u hadeiladu o gwmpas fframiau dur gyda tho ffelt gwastad. Cafodd y rhain eu codi ym 1969. Yn seiliedig ar arolwg o adeiladau pob ysgol sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i graddio'n C minws o ran ei chyflwr, a gradd B o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Y ffigur presennol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw y byddai'n ddymunol ei gynnal yn yr ysgol yw £1,931,226.00.

Mae nifer y disgyblion sydd wedi mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun dros y pedair blynedd diwethaf yn cael ei dangos isod. Mae'r rhain yn dod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel

Disgyblion (CYBLD) y mae'n orfodol i'w gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Dydy'r niferoedd ddim yn cynnwys plant oedran meithrin, oherwydd ei bod hi'n ofynnol i ni beidio â chynnwys y rhain yn y tabl o dan God Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydyn ni wedi dangos nifer y plant meithrin ar wahân:

Ysgol	Ystod oedran yr ysgol gyfan	Ion 2014	Ion 2015	Ion 2016	Ion 2017	Ion 2018
Ysgol Gynradd Hirwaun	3–11	195	201	201	211	208

Nodwch: 265 yw capasiti'r ysgol (ac eithrio meithrin).

Nifer y disgyblion meithrin (cyfanswm y disgyblion)

Ysgol	Ion 2014	Ion 2015	Ion 2016	Ion 2017	Ion 2018
Ysgol Gynradd Hirwaun	38	33	32	36	41

Dros y pum mlynedd nesaf, y rhagolygon o ran y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun (sydd wedi'u cyfrifo yn unol ag arweiniad sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru) yw fel a ganlyn:

Ysgol	Ion 2019	Ion 2020	Ion 2021	Ion 2022	Ion 2023
Ysgol Gynradd Hirwaun	214	218	220	222	228

Rhaid nodi bod 102 o blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol yn mynychu ysgolion y tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun (ac eithrio'r rheiny sy'n mynychu ysgolion ffydd). Pe bai galw am le ar gyfer plant sy'n byw yn y dalgylch yn cynyddu oherwydd adeilad newydd yr ysgol, byddai modd i'r adeilad newydd ysgwyddo'r twf yn nifer y disgyblion.

### Safonau'r Ysgol Gynradd

Mae'r tablau isod yn nodi cyflawniad Ysgol Gynradd Hirwaun mewn perthynas â chyflawniad addysgol dros y tair blynedd diwethaf ac yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar y niferoedd o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

<b>Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen</b>			
	<b>2015 %</b>	<b>2016 %</b>	<b>2017 %</b>
<b>Pynciau</b>	<b>Ysgol Gynradd Hirwaun</b>	<b>Ysgol Gynradd Hirwaun</b>	<b>Ysgol Gynradd Hirwaun</b>
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	86.2 (2)	86.2 (2)	89.3 (1)
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywioldeb	93.1 (3)	100 (1)	96.4 (2)
Sgiliau laith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg/Cymraeg)	86.2 (2)	86.2 (2)	92.9 (1)
Datblygiad Mathemategol	89.7 (2)	93.1 (1)	92.9 (1)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgolion ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarteli meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.*

<b>Deilliannau Cyfnod Allweddol 2</b>			
<b>Pynciau</b>	<b>2015 %</b>	<b>2016 %</b>	<b>2017 %</b>
Saesneg	83.3 (3)	90.9 (1)	94.6 (1)
Mathemateg	91.7 (1)	95.5 (1)	97.3 (1)
Gwyddoniaeth	91.7 (2)	95.5 (1)	94.6 (1)
Dangosydd Pynciau Craidd	83.31 (2)	90.9 (1)	91.9 (1)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarteli meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.*

Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf wedi'i nodi isod:

**Canran y sesiynau hanner diwrnod a gafodd eu mynychu gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academiaidd**

Ysgol	2015	Chwarter Meincnod 2015	2016	Chwarter Meincnod 2016	2017	Chwarter Meincnod 2017
Ysgol Gynradd Hirwaun	94.2	2	93	4	93.6	3

Cafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei harolygu gan Estyn ym mis Chwefror 2018, a'r canlyniadau oedd:-

<u>Maes arolygu</u>	<u>Dyfarniad</u>
Safonau	Digonol ac angen gwella
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Digonol ac angen gwella
Profiadau addysgu a dysgu	Anfoddhaol ac angen gwelliant brys
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arwain a rheoli	Digonol ac angen gwella

Nododd Estyn argymhellion ar gyfer eu gweithredu, sef y dylai'r ysgol:

- A1** Gwella ansawdd yr addysgu a'r adborth i ddisgyblion
- A2** Gwella safonau darllen, ysgrifennu a chyflwyniad gwaith disgyblion
- A3** Gwella safonau disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- A4** Sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion a datblygu medrau disgyblion yn raddol
- A5** Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion
- A6** Nodi a mynd i'r afael yn gywir â meysydd addysgu a dysgu pwysig y mae angen eu gwella a dwyn pob aelod o staff i gyfrif yn drylwyr

Yn dilyn yr arolygiad, cafodd cynllun gweithredu manwl ei baratoi er mwyn gweithredu'r argymhellion. Bydd yr ysgol yn cael cefnogaeth lawn i weithredu'r gwelliannau sydd eu hangen gan swyddogion o Wasanaeth Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol a Consortiwm Canolbarth y De. Bydd Estyn yn cynnal arolygiad arall yn y flwyddyn academaidd nesaf i bennu a ydy'r mesurau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer gwneud y gwelliannau gofynnol wedi'u rhoi ar waith.

Fel y nodwyd uchod, Consortiwm Canolbarth y De sy'n cynnal Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor. Mae ysgolion yn cael eu graddio yn ôl lliwiau Gwrdd, Melyn, Ambr neu Goch o ran eu safonau. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i nodi yn ysgol 'Goch' o ganlyniad i ganlyniad arolygiad Estyn, fel y nodwyd uchod.

Mae'r Cyngor wedi comisiynu'r gwasanaeth gwella ysgolion (Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De) i sicrhau bod cynnydd cryf yn cael ei wneud yn erbyn pob

argymhelliad yn adroddiad arolygu Estyn ac mae'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yr Uwch Ymgynghorydd Her, y Pennaeth a Chadeirydd y Corff Llywodraethu yn cael adborth rheolaidd.

### ***Beth yw sail y Cynnig yma?***

Mae newid yn statws cyfrwng iaith i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru: Strategaeth 'Miliwn o Siaradwyr' erbyn 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Rhondda Cynon Taf.

### ***Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA/WESP)***

Mae rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Mae'r ddogfen yma'n nodi sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu hyrwyddo addysgu'r Gymraeg a sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi sut y bydd modd i'r Awdurdod Lleol gynorthwyo Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i gwaith o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae modd gweld a lawrlwytho Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen yma:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>.

Ymhlith y rhestr o gamau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni er mwyn bodloni targedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan gynyddu nifer y plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, yw'r canlynol:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd.
- Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Byddai'r cynnig yma, i newid Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i fod yn ysgol uniaith Gymraeg yn unig, gan gynyddu, trwy hynny, nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg, yn cyfrannu at gyflawni'r targedau yma yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol.

### ***Beth yw'r ddadl addysgol dros newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn a chynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun?***

Dylai newid sefydliadol i ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwelliannau cyffredinol mewn safonau, ond

hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith ffafriol ar eu cyflawniad cyffredinol a'u deilliannau.

Barn y Cyngor yw byddai newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chodi adeilad ysgol newydd gyda rhagor o leoedd ar gyfer cymunedau Hirwaun a Phenderyn i gymryd lle Ysgol Gynradd Hirwaun yngwella deilliannau a darpariaeth addysgol.

Gallai ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fwy, newydd a phwrpasol yn Hirwaun gynnig:

- Mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a phrifio;
- Posiblirwydd o arbedion ariannol yn nhermau gwasanaethau, sy'n deillio o ysgol fwy a all gael eu hail-fuddsoddi er budd y disgyblion i gyd;
- Buddion buddsoddi cyfalaf y dyfodol a fyddai'n cael eu gwireddu trwy adeiladu ysgol fodern a phwrpasol sy'n bodloni holl safonau amgylchedd dysgu yr 21<sup>ain</sup> Ganrif;
- Rhagor o gyfleoedd ar gyfer yr athrawon a staff ategol/cymorth sy'n dod i'r amlwg oherwydd ysgol fwy;
- Disgyblion, yn bennaf, yn cael eu dysgu yn rhan o'u grŵp blwyddyn. Mae pob dosbarth yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Penderyn yn grwpiau blwyddyn cymysg ar hyn o bryd.

Gallai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mhenderyn:

- Trochi llwyr yn y Gymraeg ar gyfer y disgyblion i gyd yn yr ysgol;
- Rhoi'r cyfle i niferoedd mwy o ddisgyblion o'r oedran ieuengaf posibl gael eu trochi'n llwyr yn y Gymraeg;
- Cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer athrawon a staff cymorth y byddai modd i ysgol cyfrwng Cymraeg fwy eu darparu;
- Creu 'trwch' o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg;
- Darparu modd ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fwy yn y sector uwchradd;
- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Gwella trefniadau ar gyfer denu a chadw staff.

### ***Beth fydd y Cynnig yma'n ei olygu i ddisgyblion yr ysgolion?***

Wrth wneud y newidiadau arfaethedig, mae sawl mantais dybiedig arall y mae modd ei wireddu yn ychwanegol ar y materion uchod, sef:

- Bydd mwy o gystadleuaeth y tu mewn ac y tu allan i'r dosbarth i ddisgyblion mewn ysgol fwy yn Hirwaun – a dyma'r hyn sydd ei eisiau ar blant os ydyn nhw i gyflawni deilliannau addysgol da;

- Mae bod yn rhan o ysgol fwy yn creu cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau cwricwlwm ac allgyrsiol;
- Tîm mwy o staff yn Ysgol Gynradd Hirwaun er mwyn rhannu arbenigedd a phrofiad;
- Rhagor o bobl yn cael eu dysgu mewn adeiladau ysgol pwrpasol â'r cyfleusterau diweddaraf a fydd yn addas ar gyfer darparu addysg yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a'u cam-fanteisio arnyn nhw;
4. yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn bod y cynnig yma o fudd i'r plant yn y cymunedau dan sylw yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

## ***Newidiadau i ddalgylchoedd***

### **Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn**

Bydd disgyblion sy'n byw yn Hirwaun ac sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddewis rhieni).

Bydd dalgylch cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn ehangu i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (hwythau'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd).

Bydden ni'n gwneud y newidiadau yma i'r dalgylchoedd er mwyn paru'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg â'r hyn sydd ar gael yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma.

Os bydd rhagor o geisiadau yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael, mae meini prawf cyhoeddedig ar gyfer derbyn disgyblion yn cael ei weithredu o ran pob cais sy'n dod i law. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn pennu'r disgyblion sydd wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau'r lleoedd sydd ar gael. Dyma'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn ôl blaenoriaeth yn ein llyfryn polisi derbyn disgyblion 'Dechrau'r Ysgol':

- Categori 1 – Plant dan adain gofal y Cyngor (plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod dan adain gofal y Cyngor.
- Categori 2 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno ac sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwylidig derbyn y plentyn iau.
- Categori 3 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond does dim brawd neu chwaer hŷn gyda nhw ynddi.
- Categori 4 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno ac sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwylidig derbyn y plentyn iau.
- Categori 5 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.

Mae 'cartref' mewn perthynas â'r meini prawf uchod yn cyfeirio at leoliad/cyfeiriad penodol y cartref lle mae'r plentyn yn byw.

Bydd y plant yn cael eu derbyn i'r ysgol hyd at y Nifer Derbyn cyhoeddedig, yn nhrefn y blaenoriaethau uchod. Oni fydd digon o leoedd ar gyfer yr holl blant sy'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau blaenoriaeth uchod, bydd y lleoedd yn cael eu rhoi i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur yn ôl y daith gerdded fwyaf diogel a byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Er mwyn bod yn gwbl sicr, mewn ardaloedd lle nad oes taith gerdded ddiogel yn ôl yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn mesur y pellter yn ôl y daith gyrru fwyaf byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Bydd y pellter yn cael ei fesur gan ddefnyddio System Mapinfo yn unig. Fydd mesurau wedi'u cyfrifo gan unrhyw system arall ddim yn cael eu hystyried. Yn achos rhieni sy'n rhannu cyfrifoldebau gofal am blentyn, y cyfeiriad ar gyfer talu Budd-dal Plant fydd y cyfeiriad i'w gymryd i ystyriaeth.

O ran rhoi'r meini prawf ar gyfer derbyn ar waith, caiff cais unrhyw blentyn sy'n byw yn yr ardaloedd sydd i'w trosglwyddo o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr (YGG Aberdâr), fel sydd wedi'i nodi ar y map sy'n dod gyda'r ddogfen yma, ac sydd â brawd neu chwaer hŷn yn YGG Aberdâr ym Medi 2020 ei ystyried pe bai e/hi yn parhau i fyw yn nalgylch YGG Aberdâr, hynny yw, bydd y cais yn dod o dan Categori 2 yn y meini prawf yn hytrach na Categori 4. Bydd hyn yn berthnasol tan fod pob brawd neu chwaer hŷn wedi gadael yr ysgol. Dim ond brodyr/chwiorydd sydd yn y Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 ym Medi 2020 fydd hyn yn berthnasol iddyn nhw, fydd hyn ddim yn berthnasol i unrhyw rai sy'n mynychu'r dosbarth Meithrin (achos nad addysg statudol mohoni).

### **Ysgol Gynradd Hirwaun**

Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei ehangu i gynnwys dalgylch presennol ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn. Byddai disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng



Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun pan fydd e'n agor ei ddrysau ar 1 Medi 2021 (gan ddibynnu ar ddewis rhieni). Fyddai dim rhaid llenwi ceisiadau am le oni bai bod y cais yn ymwneud â lle mewn dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn.

## Polisi cludo disgyblion

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i "bellter cerdded" o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ysgol yn y dalgylch, boed hynny'n ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio'r disgrisiwn sydd wedi'i roi iddo gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf i'w gymhwyso ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion ysgolion cynradd i'w hysgol addas agosaf wedi'i bennu'n 1½ milltir, o'i gymharu â'r 2 filltir sy'n ofynnol dan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i blant sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf i'w gymhwyso ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion ysgolion uwchradd i'w hysgol addas agosaf wedi'i bennu'n 2 filltir, o'i gymharu â'r 3 milltir sy'n ofynnol dan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth yma'n gymwys yn achos cyrsiau amser llawn yn yr ysgol neu goleg sydd yn agosaf i gartref y dysgwr ac sy'n darparu'r cwrs cymwys.
- Darparu cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf (gyda golwg ar yr hyn sy wedi'i bennu uchod) yn unol â thueddiadau crefyddol penodol.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ardal dalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, Ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Byddai disgyblion sy'n byw yng nghymunedau Trenant a Phen-y-waun a bydd eu cartrefi nhw yn dod o fewn ffin dalgylch ehangach Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar gyfer eu haddysg Gymraeg gan eu bod nhw'n byw dros 1½ milltir, o ran y "pellter cerdded" diogel o'u hysgol addas agosaf.

Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan nad yw'r llwybr cerdded yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'. Fydd y ddarpariaeth yma ddim ar gael i ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu Ysgol Penderyn ar hyn o bryd ond sydd ddim yn byw yn y dalgylch dynodedig, gan eu bod nhw'n mynd i'r ysgol yma oherwydd dewis y rhieni.

### ***Beth fydd effaith debygol y cynigion ar staff yr ysgolion?***

Ein bwriad ni yw argymhell i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun 'glustnodi' unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd o ddisgyblion, islaw haen yr Uwch Reolwyr, ar gyfer y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn y lle cyntaf. Mae hynny'n golygu y caiff staff Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn y cyfle cyntaf i gyflwyno cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun estynedig cyn eu hysbysebu'n allanol. O lwyddo yn eu cais, byddan nhw'n trosglwyddo'n hwylus i'r ysgol newydd pan fydd hi'n agor. Mae gan y Cyngor bolisiâu Adnoddau Dynol cadarn a gweithdrefnau fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.

Byddai creu ysgol gynradd fwy yn Hirwaun a rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn rhoi cyfle i staff arbenigo ym meysydd penodol y cwricwlwm. Mae ysgol gynradd fwy, gyda rhagor o staff, yn caniatáu arbenigo o'r fath gyda'r gallu i rannu'r llwyth gwaith yn fwy effeithiol ac mae hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i staff ddatblygu eu gyrfaedd.

### ***Beth fydd effaith debygol y cynnig ar gymunedau Penderyn ac Hirwaun?***

Mae rhan o ward etholaethol Hirwaun o fewn ardal Cymunedau am Waith ac ardal Dechrau'n Deg.

Mae asesiad effaith ar y gymuned, asesiad effaith ar gydraddoldeb, ac asesiad effaith ar y Gymraeg wedi cael eu cwblhau ar gyfer y cynnig yma. Caiff y rhain eu diweddarau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynnwys y materion perthnasol hynny sydd wedi codi ac sydd angen cael eu hystyried. Bydd yr asesiad effaith ar y gymuned a'r asesiad effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor yn yr adroddiad sy'n nodi'r adborth ymgynghori hynny a fydd wedi cael ei dderbyn mewn perthynas â'r cynnig yma. Mae copi o'r asesiad effaith ar y gymuned, yr asesiad effaith ar gydraddoldeb, a'r asesiad effaith ar y Gymraeg ar gael ar gais (cysylltwch drwy ddefnyddio'r manylion ar ddechrau'r ddogfen yma). Maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor drwy glicio ar y ddolen

sydd ar dudalen 5 o'r ddogfen yma. Y farn yw y byddai'r effaith gyffredinol ar gymunedau lleol yn sgîl y cynigion yma, gyda chyfleusterau gwell ac estynedig, yn gadarnhaol ac yn fuddiol.

### ***Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?***

Gan fod y cynnig yma'n ymwneud â newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i ysgol cyfrwng Gymraeg, a chodi adeilad newydd, mwy cyfrwng Saesneg yn Hirwaun, bach fydd yr arbedion ariannol – bydd y rhain yn gysylltiedig â newid Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol y ddwy iaith i un cyfrwng Cymraeg yn unig; ac o bosibl, bydd arbedion ariannol yn y dyfodol yn gysylltiedig â darbodion maint sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau mewn ysgol fwy.

Bydd costau cyfalaf adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael eu hariannu yn rhan o raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Cyngor Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cymru. Bydd yr adeilad newydd yn costio oddeutu £10.4m. Fe ddaw'r arian yma o raglen Addysg ac Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, gyda 50% yn dod o du Llywodraeth Cymru a 50% arall oddi wrth y Cyngor.

### ***Beth yw anfanteision y cynnig yma?***

Efallai y bydd rhai rhieni o'r farn bod ffrwd Saesneg llai yn well i'r disgyblion nag un ysgol fwy – mewn geiriau eraill bod ysgolion llai, efallai, yn fwy personol a llai brawychus, yn enwedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn fwy, ond byddai modd iddi hi gynnig manteision ychwanegol na'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol ddwy iaith, er enghraifft, llai o grwpiau cymysg o ran blwyddyn; a mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau yn y cwricwlwm a'r tu allan i'r cwricwlwm trwy fod yn ysgol fwy.

Efallai bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio'n hirach i'r ysgol, ond fel mae'n cael ei nodi ar dudalennau 15 a 16, byddwn ni'n gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chludo disgyblion i'r ddwy ysgol, lle mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn mynychu ysgol gynradd sy'n byw 1½ milltir neu'r llwybr "pellter cerdded" o'u hysgol addas agosaf yn cael cludiant am ddim i/o'r ysgol.

Byddai disgyblion sy'n byw yng nghymunedau Tenant a Phen-y-waun a bydd eu cartrefi nhw yn dod o fewn ffin dalgylch ehangach Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar gyfer eu haddysg Gymraeg gan eu bod nhw'n byw dros 1½ milltir, o ran y "pellter cerdded" diogel o'u hysgol addas agosaf.

Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan nad yw'r llwybr cerdded yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'.

Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynnig yn gorbwyso effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

### ***Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?***

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod ysgol ddwy iaith gymharol newydd ym Mhenderyn a'i ffrwd cyfrwng Saesneg yn crebachu o hyd. Mae hyn yn dechrau dod yn annichonadwy, gydag anawsterau yn nhermau denu a chadw staff da. Yn ogystal â hynny, mae'r ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Hirwaun mewn cyflwr truenus. Mae galw am addysg Gymraeg yn ardal ehangach Aberdâr, oherwydd y datblygiadau tai ychwanegol – mae caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ddiweddar ar gyfer adeiladu 93 o gartrefi gyferbyn ag Ysgol Gyfun Rhyd-ywaun (Fferm Pentwyn Cynon). Byddai'r cyfle, felly, i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn unig, ynghyd â newidiadau cysylltiedig eraill i ddalgylchoedd, yn bodloni'r galw yma. Byddai manteision cysylltiedig eraill ar gyfer rhai disgyblion yn ogystal, gan gynnwys cyfle i ymdrochi'n llwyr yn y Gymraeg. Byddai codi adeilad newydd, mwy i gymryd lle'r adeilad presennol ar gyfer Ysgol Hirwaun yn golygu digon o leoedd cyfrwng Saesneg, a byddai'n darparu cyfleusterau addysg ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Felly, dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

Ar ben hynny, mae pentref Hirwaun wedi cael ei bennu yn un o'r aneddiadau allweddol yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor 2011-2022 ac mae tir i'r de o Hirwaun (safle Hen Lofa'r Twr) wedi'i bennu safle strategol ar gyfer y datblygiad, ac felly mae'r galw am leoedd ysgol (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn yr ardal yma yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

Yr unig opsiwn posibl arall dan ystyriaeth y Cyngor oedd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn barhau yn ysgol y ddwy iaith, ac i'r adeiladau sydd mewn cyflwr truenus yn Ysgol Gynradd Hirwaun gael eu dymchwel a'u hail-godi – hynny yw, cadw'r ddarpariaeth addysg yr un fath ag y mae hi nawr. Fyddai'r opsiwn yma ddim yn mynd i'r afael â'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, na darparu'r manteision sy'n gysylltiedig ag ysgol uniaith Gymraeg, na'r problemau sy'n codi yn sgîl y ffrwd Saesneg sy'n crebachu o hyd. Yn ogystal â hynny, fyddai'r opsiwn ddim yn newid sefyllfa bresennol y ddwy ysgol o gwbl, ac mae'r rhagolygon yn awgrymu bod y niferoedd yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn parhau i ostwng. Fyddai hyn, chwaith, ddim yn gwireddu un o'r amcanion allweddol sy'n rhan o'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion sydd eisiau cael addysg Gymraeg, trwy droi'n hysgolion dwy iaith yn ddarpariaeth uniaith Gymraeg.

### ***Llywodraethu***

Gan nad yw'r cynnig yn ymwneud â sefydlu unrhyw ddarpariaethau ysgol newydd, bydd cyrff llywodraethu presennol eu hysgolion yn parhau a fydd eu haelodaeth ddim yn newid. Bydd cyfleoedd yn y dyfodol i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned gyflwyno cais am swyddi ar y cyrff llywodraethu wrth i'r swyddi fod ar gael.

### ***Yr Adeilad Ysgol Arfaethedig***

Y cynnig yw codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun ar safle'r ysgol bresennol. Bydd yr ysgol yn disodli adeilad presennol yr ysgol a bydd hi ar gyfer plant rhwng 3 a 11 oed sydd eisiau addysg cyfrwng Saesneg. Ei nifer derbyn arfaethedig fyddai 55 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 390 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin). Byddai 60 o leoedd meithrin ar gael, ond byddai hyblygrwydd o ran cynyddu nifer y lleoedd meithrin, os oes tystiolaeth o alw, trwy ddefnyddio'r lle gwag a fyddai ar gael yn yr adeilad. Bydd y safle yn cynnwys adran feithrin, 13 o fannau addysgu cyffredinol a mannau atodol eraill a fydd yn briodol ar gyfer niferoedd disgyblion, gan gynnwys neuadd aml-ddefnydd, cegin, swyddfeydd, mannau adnoddau, ystafelloedd ar gyfer defnydd y gymuned leol, a thoiledau wrth gwrs. Bydd yr adeilad newydd yn hygyrch ac yn bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal y broses derbyn disgyblion i'r ysgol, a bydd y disgyblion i gyd sy'n mynychu'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn trosglwyddo'n awtomatig i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun pan fydd hi wedi'i chwblhau (yn amodol ar ddewis rhieni).

Byddai unrhyw risgiau a allai'u codi yn sgîl y cynigion yma, megis oedi yn y gwaith adeiladu, yn destun trefniadau rheoli prosiect manwl a thrylwyr a fyddai'n cael eu rhoi yn eu lle.

Bydd modd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg i 231 o ddisgyblion (a meithrin), a'i nifer derbyn fyddai 33 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn. Yr Awdurdod Lleol fydd yn gweinyddu'r broses derbyn disgyblion.

### ***Beth yw'r broses statudol?***


Mae'r Côt am Drefniadaeth Ysgolion ("y Côt") yn cael ei nodi o dan Adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Daeth y Côt i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n gymwys o ran holl gynigion ysgolion sy'n cael eu cyhoeddi drwy hysbysiad statudol ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd y Côt presennol yn cael ei ddiwygio ar 1 Tachwedd 2018. Bydd y broses y byddwn ni'n ei defnyddio yn dilyn y cyfarwyddyd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen yma. Rhaid i gynigion i wneud newidiadau a reoleiddir i ysgolion ddilyn y broses ganlynol:

1. Mae Cabinet y Cyngor yn ystyried y Côt ac yn awdurdodi ymgynghoriad ar y newidiadau i'r ysgolion;
2. Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, **rhaid** i'r Cyngor ddarparu dogfen ymgynghori ar gyfer yr ymgynghoreion, a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddyn nhw ymateb, a rhaid i o leiaf 20 o'r diwrnodau yma fod yn ddiwrnodau ysgol. Os yw'r Cyngor o'r farn ei bod hi'n briodol, bydd cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori;
3. Mae sylwadau ar yr ymgynghoriad yn cael eu coladu a'u crynhoi gan y Cyngor. Mae'r crynodeb yma, ynghyd ag ymatebion swyddogion y Cyngor eu hunain, yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ymgynghori cyn pen 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori, a'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ystyriaeth;
4. Mae Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os 'bwrw ymlaen' yw'r penderfyniad, bydd cam 5 yn cael ei ddilyn. Os bydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr


ymgyngoriad y mae Cabinet y Cyngor yn dymuno'i ystyried, yna bydd camau 1-3 yn cael eu dilyn eto;

5. Mae hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. **Rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol, ac â 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) yn y cyfnod o rybudd;
6. Os yw gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn, **rhaid** i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymatebion iddyn nhw, cyn pen 7 niwrnod gan ddechrau gyda diwrnod penderfyniad yr awdurdod o ran prosesu'r cynigion;
7. Rhaid i Gabinet y Cyngor gyhoeddi ei benderfyniad ar y cynigion cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;
8. Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo, dylen nhw gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad sy'n ymddangos yn yr hysbysiad statudol, neu ar unrhyw ddyddiad addasedig wedi hynny.

**Dalgylch presennol Ysgol Gynradd Penderyn (cyfrwng Cymraeg)**



**Dalgylch arfaethedig Ysgol Gynradd Penderyn (cyfrwng Cymraeg)**



**Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad**



Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Nodwch na fyddwn ni'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi. Bydd hi'n cael ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Bydd unrhyw sylwadau mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi yn cael eu nodi'n ddienw yn adroddiad yr ymgynghoriad. Anfonwch eich ymatebion at:

*Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant*

*Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif*

*Tŷ Trevithick*

*Abercynon CF45*

*<sup>1</sup>UQ*

*neu drwy ffacs: 01443 744224, neu e-bost: [CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk)*

## **Y cynnig**

Newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol y ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg ac ehangu'i dalgylch; a chynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun mewn adeilad newydd, pwrpasol. Bydd yr holl newidiadau wedi'i weithredu erbyn mis Medi 2021.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw  Nac  ydw Ddim yn siwr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis.

---

---

---

2. Nodwch unrhyw sylwadau neu ystyriaethau eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (croeso i chi gynnwys dalennau ychwanegol os oes angen)

---

---

- <sup>1</sup>. Enw (dewisol)

---

---

3. Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant disgybl mewn ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr ar ysgol sy'n cael ei henwi, aelod o'r Gymuned, ac ati.)

---

5. Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad

---

### **Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur yma**

*Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 31 Ionawr 2019, fan bellaf.*

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn ogystal â rhoi gwybod i chi ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddod i wybod ynghylch sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd (Ymgynghori) yma: [www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth](http://www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth) a thudalennau **diogelu data** y Cyngor yma: [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata).

## **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

### **Cynnig i newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, diwygio dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun.**

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Bydd y cyfnod ymgynghori ar y cynnig yn cael ei gynnal rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2018. Mae dogfen ymgynghori fanwl wedi cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Dydy'r Asesiad o'r Effaith yma ddim wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori gan ein bod ni'n effro i'r ffaith bod rhaid i'r ddogfen fod mor gryno ac addysgiadol â phosibl, ac yn hawdd i ddefnyddwyr ei ddarllen. Dylid pwysleisio bod y ddogfen yma ar gael yn rhwydd; mae croeso i unrhyw berson ei gweld neu'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor.

#### Y cynnig

Y cynnig yw newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig, gyda dalgylch diwygiedig fydd yn cynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun; ac ehangu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun trwy adeiladu adeilad newydd mwy ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd y ddwy ysgol yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion 3-11 oed. Bydd Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg, a bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig lleoedd cyfrwng Saesneg. Bydd gan Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn le i 231 o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg (yn ogystal â dosbarth meithrin) a bydd gan Ysgol Gynradd Hirwaun le i 390 o ddisgyblion cyfrwng Saesneg (yn ogystal â dosbarth meithrin). Bydd y Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn buddsoddi £10.4 miliwn mewn adeilad cynradd newydd yn Hirwaun i sicrhau bod gan ddisgyblion amgylchedd dysgu hyfyw, cynaliadwy ac o safon uchel sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

#### Effaith ar y Gymuned

Rhaid pwysleisio bod effaith y cynigion yma ar y gymuned yn ansylweddol. Dydy'r cynnig ddim yn cynnwys cau unrhyw adeilad ysgol neu gyfleuster. I'r gwrthwyneb, bydd mynediad yn cael ei wella ar gyfer y gymuned. Y cynnig yw codi ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd sbon yn lle Ysgol Gynradd Hirwaun ar gyfer pentrefi Hirwaun a Phenderyn. Bydd yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar safle Ysgol Gynradd Hirwaun bresennol a bydd ganddo ystafelloedd cymunedol newydd sbon y bydd modd i grwpiau cymunedol presennol eu defnyddio. Bydd modd i'r ystafelloedd yma gynnal defnydd pellach gan y gymuned. Mae modd i grwpiau megis Dechrau'n Deg, grwpiau rhieni a phlant, ymwelwyr iechyd ac addysg i oedolion ddefnyddio'r cyfleusterau yma. Bydd yr ysgol gyfan yn hygyrch a bydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cyfleusterau newydd yn Hirwaun hefyd yn cynnwys cae chwarae glaswellt allanol ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) fydd ar gael i'w defnyddio gan ddisgyblion yn ystod oriau ysgol, ond bydd hefyd ar gael i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn adeilad newydd a gafodd ei agor yn 2006 sydd eisoes â chyfleusterau Ardal Gemau Aml-ddefnydd, yn ogystal â choetir. Mae'r ffaith bod ysgolion a chyfleusterau cymuned eraill o fewn pellter byr yn golygu nad yw hi'n angenrheidiol ystyried gwella cyfleusterau cymuned eraill yn yr ardal leol, yn enwedig gan na fydd unrhyw gyfleusterau presennol yn cael eu colli o ganlyniad i'r cynigion yma.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylchoedd presennol a'r tu allan iddyn nhw

Mae canran y disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun sy'n byw yn eu dalgylchoedd priodol presennol a'r tu allan iddyn nhw fel a ganlyn:-

<b>Ysgol</b>	<b>Nifer y disgyblion – Ionawr 2018 (gan gynnwys y dosbarth meithrin)</b>	<b>% disgyblion sy'n byw yn y dalgylch presennol</b>	<b>&amp; disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch presennol</b>
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (ysgol gyfan)	233	72.1%	27.9%
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (Cymraeg)	179	81.5%	18.5%
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (Saesneg)	54	40.1%	59.9%
Ysgol Gynradd Hirwaun	249	93.9%	6.1%

O blith y 54 o ddisgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, dim ond 22 ohonyn nhw sy'n byw yn nalgylch Penderyn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion (27 o ddisgyblion) yn byw o fewn dalgylch Hirwaun.

Newidiadau i ddalgylchoedd

Bwriad y cynnig yma yw gwella'r llety a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylchoedd sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Y cynnig yw ehangu dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun i gynnwys dalgylch presennol ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn.

Bydd disgyblion sy'n byw yn Hirwaun ac sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddewis rhieni). Y cynnig yw

ehangu dalgylch cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (a hwythau'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Rydyn ni'n cynnig y newidiadau yma i'r dalgylchoedd er mwyn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma. Mae cynigion i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, gan greu 60 o leoedd newydd, a chynigion i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, gan greu 162 o leoedd, hefyd yn ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol.

#### Goblygiadau traffig

Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio'n bellach i'r ysgol, ond byddwn ni'n gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chludo disgyblion i'r ddwy ysgol. Hynny yw, lle mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn mynychu ysgol gynradd ac yn byw 1½ milltir neu'n bellach ar lwybr cerdded diogel o'u hysgol addas agosaf byddan nhw'n cael cludiant am ddim i/o'r ysgol.

Bydd disgyblion sy'n byw yng nghymunedau Trenant a Phen-y-waun sydd â'u cartrefi nhw o fewn ffin dalgylch ehangach Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar gyfer eu haddysg Gymraeg gan eu bod nhw'n byw'n bellach nag 1½ milltir o ran y "pellter cerdded" diogel o'u hysgol addas agosaf.

Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan fod y llwybr cerdded ddim yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'. Fydd y ddarpariaeth yma ddim ar gael i ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu Ysgol Penderyn ar hyn o bryd ond sydd ddim yn byw yn y dalgylch dynodedig, gan eu bod nhw'n mynd i'r ysgol yma oherwydd dewis eu rhieni.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn 2.6 milltir o'i gilydd a does dim disgwyl i'r amser teithio rhwng y ddwy ysgol fod yn hwy na 15 munud.

Fydd dim newidiadau i bellteroedd teithio disgyblion sy'n mynd ar hyn o bryd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddan nhw'n aros yn yr un ysgol, a fydd dim newidiadau neu oblygiadau eraill i ddarpariaeth cludiant i'r ysgol ar gyfer y disgyblion yma.

#### 'Tu allan i oriau ysgol' – Defnydd Presennol

Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo, bydd pob gweithgaredd presennol cyn ac ar ôl ysgol yn parhau yn y ddwy ysgol. Bydd y clybiau brecwast presennol sy'n cael eu cynnig gan y ddwy ysgol yn parhau. Bydd pob clwb ar ôl ysgol yn parhau i gael ei gynnig hefyd. Dyma'r gweithgareddau presennol sy'n cael eu cynnig ar ôl ysgol:-

*Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn*  
Clwb Urdd ar ôl ysgol  
Clwb chwaraeon

### *Ysgol Gynradd Hirwaun*

Athletau

Pêl-rwyd

Tennis

Pêl-droed i ferched

Criced

Bydd adeiladu'r adeilad mwy, newydd yn Hirwaun yn caniatáu darparu rhagor o weithgareddau fel y rhain. Mae modd i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn o ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg hefyd gynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu gweithgareddau ar ôl ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn ni'n annog y gymuned a thrydydd partïon i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol. Bydd unrhyw grwpiau sy'n gysylltiedig â'r ysgolion, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon er enghraifft, yn parhau i ddefnyddio'r ddwy ysgol ar gyfer achlysuron os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo.



**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – HOLIADUR**



## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – HOLIADUR

**Cyfadran:** Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Gwasanaeth:** Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

**Swyddog cyfrifol:** Julie Hadley

**Dyddiad:** 30 Medi 2018

### 1. Enw'r polisi/gweithdrefn/arfer/cynllun:

**Newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn; diwygio dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn; a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun**

Bwriad y prosiect yw:

Newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn o ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig, gyda dalgylch diwygiedig sy'n cynnwys cymunedau Tenant a Phen-y-waun; ac ehangu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun trwy adeiladu adeilad mwy, newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd y ddwy ysgol yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion 3-11 oed. Bydd Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg, a bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig lleoedd cyfrwng Saesneg. Bydd y Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn buddsoddi £10.4 miliwn mewn adeilad cynradd newydd yn Hirwaun i sicrhau bod gan ddisgyblion amgylchedd dysgu hyfyw, cynaliadwy ac o safon uchel sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

### 2. Amcanion y Polisi, rhaid ystyried pam mae angen y polisi? Beth mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni?

Sut bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad?

Mae'r cynnig wedi'i amlinellu mewn dogfen ymgynghori fanwl sydd wedi cael ei dosbarthu i bob parti a rhanddeiliad â diddordeb. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar wefan y Cyngor i unrhyw berson ei gweld neu'i lawrlwytho.

Dydy'r cynnig yma ddim yn cynnwys cau neu symud unrhyw adeilad ysgol neu gyfleuster; bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fwy yn Hirwaun yn defnyddio safle'r ysgol bresennol. Bydd y cynigion arfaethedig yn gwella'r cyfleuster trwy godi ysgol newydd sbon a chyfleusterau chwarae allanol cysylltiedig sy'n bodloni anghenion dysgu'r 21<sup>ain</sup> ganrif ac sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn lle hen adeiladau mewn cyflwr gwael.

Mae newid yn statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd 'Miliwn o Siaradwyr' erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae'r cynnig hefyd yn cyfeirio at y camau gweithredu a'r deilliannau canlynol sy wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynyddu nifer y disgyblion 7 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg trwy:

- Darparu adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd;
- Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig.

Mae modd gweld a lawrlwytho Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT o wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen yma: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>.

Bydd diwygio dalgylch cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (sydd yn nalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd) yn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma.

**Ystyriaethau addysgol—**

Dylai newid sefydliadol i ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwelliannau cyffredinol mewn safonau, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Barn y Cyngor yw byddai newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chodi adeilad ysgol newydd gyda rhagor o leoedd ar gyfer cymunedau Hirwaun a Phenderyn i gymryd lle Ysgol Gynradd Hirwaun yn gwella deilliannau a darpariaeth addysgol.

Byddai modd i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fwy, newydd a phwrpasol yn Hirwaun gynnig:

- Rhagor o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd amgylchedd addysgol estynedig gwell ar gyfer dysgu a phrifio;
- Posibilrwydd o arbedion ariannol yn nhermau gwasanaethau, sy'n deillio o ysgol fwy. Byddai modd i'r rhain gael eu hail-fuddsoddi er budd y disgyblion i gyd;
- Buddion buddsoddi cyfalaf y dyfodol a fyddai'n cael eu gwireddu trwy adeiladu ysgol fodern a phwrpasol sy'n bodloni holl safonau amgylchedd dysgu yr 21<sup>ain</sup> ganrif;
- Rhagor o gyfleoedd ar gyfer yr athrawon a staff ategol/cymorth sy'n dod i'r amlwg oherwydd ysgol fwy;
- Disgyblion, yn bennaf, yn cael eu dysgu yn rhan o'u grŵp blwyddyn. Mae pob dosbarth yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Penderyn yn cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg ar hyn o bryd.

Byddai modd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mhenderyn:

- Cynnig y cyfle i drochi'n llwyr yn y Gymraeg i holl ddisgyblion yr ysgol;
- Rhoi'r cyfle i niferoedd uwch o ddisgyblion o'r oedran ieuengaf posibl gael eu trochi'n llwyr yn y Gymraeg;
- Cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer athrawon a staff cymorth y byddai modd i ysgol cyfrwng Cymraeg fwy eu darparu;
- Creu 'trwch' o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg;
- Galluogi datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg bellach yn y sector uwchradd;
- Rhoi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Goblygiadau i staff –

- Byddai creu ysgol gynradd fwy yn Hirwaun a rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn rhoi cyfle i staff arbenigo ym meysydd penodol y cwrciwlwm. Mae ysgol fwy, gyda rhagor o staff, yn caniatáu arbenigo o'r fath gyda'r gallu i rannu'r llwyth gwaith yn fwy effeithiol ac mae hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i staff ddatblygu eu gyrfaedd.
- Ein bwriad ni yw argymhell i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun 'glustnodi' unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd o ddisgyblion, islaw haen yr Uwch Reolwyr, ar gyfer y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn y lle cyntaf. Mae hynny'n golygu y caiff staff Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn y cyfle cyntaf i gyflwyno cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun estynedig cyn eu hysbysebu'n allanol. O lwyddo yn eu cais, byddan nhw'n trosglwyddo'n hwylus i'r ysgol newydd pan fydd hi'n agor. Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.

### Goblygiadau i ddisgyblion –

Wrth wneud y newidiadau arfaethedig, mae sawl mantais dybiedig arall y mae modd ei gwireddu yn ychwanegol i'r materion uchod, sef:

- Bydd rhagor o gystadleuaeth y tu mewn ac y tu allan i'r dosbarth i ddisgyblion mewn ysgol fwy yn Hirwaun – a dyma'r hyn sydd ei angen ar blant er mwyn iddyn nhw gyflawni deilliannau addysgol da;
- Mae bod yn rhan o ysgol fwy yn creu cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau cwricwlwm ac allgyrsiol;
- Carfan fwy o staff yn Ysgol Gynradd Hirwaun er mwyn rhannu arbenigedd a phrofiad;
- Rhagor o bobl yn cael eu dysgu mewn adeiladau ysgol pwrpasol â'r cyfleusterau diweddaraf a fydd yn addas ar gyfer darparu addysg yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

Y prif newid fydd gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion. Bydd hyn yn ysgogi gwelliannau ar gyfer **pob** disgybl beth bynnag fo'i ryw, ethnigrwydd neu anabledd. Dylid nodi nad yw un o'r 897 o ddisgyblion (gan gynnwys y dosbarth meithrin) sy'n mynd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, Ysgol Gynradd Hirwaun nac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, yn sipsiwn neu'n deithiwr (ffigyrau o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, Ionawr 2018). Dydy'r cynigion ddim i'w gweld yn niweidiol i un garfan benodol o ddisgyblion. Bwriad y cynigion yw gwella darpariaeth addysg i bawb.

Efallai bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio'n hirach i'r ysgol, ond byddwn ni'n gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chludo disgyblion i'r ddwy ysgol. Hynny yw, lle mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn mynychu ysgol gynradd ac yn byw 1½ milltir neu'n bellach ar lwybr cerdded diogel o'u hysgol addas agosaf, byddan nhw'n cael cludiant am ddim i/o'r ysgol.

Byddai disgyblion sy'n byw yng nghymunedau Trenant a Phen-y-waun sydd â'u cartrefi nhw o fewn dalgylch diwygiedig Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar gyfer eu haddysg Gymraeg gan eu bod nhw'n byw'n bellach nag 1½ milltir o ran y "pellter cerdded" diogel o'u hysgol addas agosaf.

Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan fod y llwybr cerdded ddim yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'. Fydd y ddarpariaeth yma ddim ar gael i ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu Ysgol Penderyn ar hyn o bryd ond sydd ddim yn byw yn y dalgylch dynodedig, gan eu bod nhw'n mynd i'r ysgol yma oherwydd dewis eu rhieni.

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun 2.6 milltir o'i gilydd a does dim disgwyl i'r amser teithio rhwng y ddwy ysgol fod yn hwy na 15 munud.

Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynnig yn gorbwyso effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

### **Newidiadau i ddalgylchoedd –**

Bydd disgyblion sy'n byw yn Hirwaun ac sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddewis rhieni).

Bydd dalgylch cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn ehangu i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (a hwythau'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Rydyn ni'n cynnig y newidiadau yma i'r dalgylchoedd er mwyn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw yng nghymunedau Trenant a Phen-y-waun y bydd eu cyfeiriadau cartref yn nalgylch diwygiedig Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, fel sydd wedi'i nodi uchod.

Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei ehangu i gynnwys dalgylch presennol ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn. Bydd disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun pan fydd e'n agor (gan ddibynnu ar ddewis rhieni). Fydd dim rhaid ceisio am le oni bai bod y cais yn ymwneud â lle mewn dosbarth Meithrin neu ddosbarth Derbyn.

Fel sy wedi'i nodi eisoes, caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan fod y llwybr cerdded ddim yn cael ei gyfrif fel un sydd 'ar gael'. Fydd y ddarpariaeth yma ddim ar gael i ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu Ysgol Penderyn ar hyn o bryd ond sydd ddim yn byw yn y dalgylch dynodedig, gan eu bod nhw'n mynd i'r ysgol yma oherwydd dewis eu rhieni.

### **Goblygiadau Ariannol –**

Gan fod y cynnig yma'n ymwneud â newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i ysgol cyfrwng Cymraeg, ac adeiladu adeilad newydd, mwy cyfrwng Saesneg yn Hirwaun, dim ond arbedion ariannol bach fydd yn cael eu gwneud – bydd y rhain yn gysylltiedig â newid Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig; ac o bosibl, bydd arbedion ariannol yn y dyfodol yn gysylltiedig ag arbedion maint sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau mewn ysgol fwy.

### **3. I bwy mae'n berthnasol? Nodwch trwy oleuo neu ddileu fel y bo'n briodol**

Aelodau o'r cyhoedd   Staff yr ysgol   Y ddau   Arall   Nodwch: plant 3-11 oed sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ac Ysgol Gynradd Hirwaun; a phlant sy'n byw yng nghymunedau Trenant a Phen-y-waun; rhieni a gwarcheidwaid y plant yma.

**4. Nodwch a fydd hyn yn gynnig newydd, adolygiad neu ddarfyddiad arfaethedig:**

Adolygiad a darfyddiad arfaethedig

**5. Adnabod yr Effaith** – Dewiswch a fydd y polisi/arfer yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar **bob un** o'r materion isod: Meddyliwch am y cwestiynau allweddol sy wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r rheolwr.

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	



Oedran (ifanc ac hen)	Bydd	Bydd		<p>Y cynigion yw creu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd mewn adeilad newydd sbon â chyfleusterau modern ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun; a newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig â dalgylch diwygiedig.</p> <p>Bydd y cynigion yma yn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu amgylcheddau dysgu cyfforddus a deniadol ar gyfer yr holl blant sy'n mynd i'r ysgolion;</li> <li>• Cynnig cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif i alluogi pob disgybl yn y gymuned leol i fanteisio ar weithgareddau dysgu a diwylliannol y mae modd iddyn nhw eu helpu i ddatblygu perthnasau mewn cymunedau;</li> <li>• Hwyluso darpariaeth y cwricwlwm newidiol a galluogi defnydd pellach o TGCh i gynnig y cyfle i bob disgybl gyrraedd ei botensial;</li> <li>• Bodloni'r galw am leoedd ychwanegol yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg trwy ddefnyddio adnoddau presennol sydd o fudd yn addysgol ac yn effeithlon yn ariannol;</li> <li>• Efallai bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio'n bellach i'r ysgol, ond byddwn ni'n gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chludo disgyblion i'r ddwy ysgol. Hynny yw, lle mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn mynychu ysgol gynradd ac yn byw 1½ milltir neu'n bellach ar lwybr cerdded diogel o'u hysgol addas agosaf, byddan nhw'n cael cludiant am ddim i/o'r ysgol.</li> </ul>
Anabledd (cofiwch ystyried y mathau gwahanol o anableddau)	Bydd			Bydd yr adeilad newydd yn Hirwaun yn gwbl hygyrch i bawb a bydd yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth bresennol o ran hyn.

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Rhywedd			Bydd	
Ailbennu Rhywedd			Bydd	
Hil			Bydd	
Crefydd neu Gred			Bydd	
Tuedd Rywiol			Bydd	
Y Gymraeg	Bydd			<p>Mae newid yn statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd 'Miliwn o Siaradwyr' erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â'r camau gweithredu a deilliannau canlynol sy wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol y</p>

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
				<p>Gymraeg mewn Addysg i gynyddu nifer y disgyblion 7 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd;</li> <li>• Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig</li> </ul> <p>Byddai'r cynnig yma yn cyfrannu at gyflawni'r targedau yma yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol, trwy newid Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig, a thrwy hynny, gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Bydd y diwygiad i ddalgylch Penderyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun hefyd yn cyfrannu at fodloni'r galw am ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai ychwanegol yn yr ardal.</p>
Gwarcheidwaid			Bydd	

## TYSTIOLAETH

## **6. Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'ch casgliadau? Nodwch isod**

Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cabinet – 20 Medi 2018  
Dogfen Ymgynghori â'r Cyhoedd ar y Cynnig

## **7. Ar gyfer meysydd lle mae effaith negyddol wedi cael ei hadnabod, oes modd lleihau'r effaith negyddol neu gael gwared arni? Nodwch isod a chynnwys y dystiolaeth rydych chi wedi'i defnyddio i lunio'ch casgliad.**

Yr unig effaith negyddol sy wedi'i hadnabod yw efallai y bydd rhai disgyblion yn gorfod teithio'n bellach i'r ysgol; fodd bynnag, byddwn ni'n gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chludo disgyblion i'r ddwy ysgol. Hynny yw, lle mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn mynychu ysgol gynradd ac yn byw 1½ milltir neu'n bellach ar lwybr cerdded diogel o'u hysgol addas agosaf, byddan nhw'n cael cludiant am ddim i/o'r ysgol. Mae rhagor o fanylion o ran darparu cludiant i'w gweld ar dudalennau 5 a 6.

## CYFRANNU AC YMGYNGHORI

### 9. Pa waith cyfrannu ac ymgynghori sy wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r polisi yma (neu bolisiau tebyg) a beth yw'r canlyniadau?

Dyma'r cyfarfodydd ymgynghori/achlysuron agored sydd i'w cynnal:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfradran	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Y ddwy ysgol a'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Mawrth 27 Tachwedd 2018 / 3pm-6pm	Ysgol Gynradd Hirwaun

Mae ysgolion hefyd yn cael cyfle i ymgynghori â'u disgyblion trwy gynnal cyfarfodydd o'u Cynghorau Ysgol fel sydd wedi'i nodi yn y tabl uchod.

Mae croeso i unigolion a phartïon sydd â diddordeb anfon eu sylwadau ysgrifenedig at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Tŷ Trevithick

Abercynon

CF45 4UQ

neu drwy Ffacs: 01443 744224, neu e-bost: [CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

## **MONITRO AC ADOLYGU**

### **10. Pa drefniadau ydych chi wedi'u rhoi yn eu lle i adolygu effaith y polisi unwaith y bydd e'n cael ei weithredu?**

Bydd carfanau Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymgysylltu'n llawn i gefnogi corff llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun wrth benodi staff i unrhyw swyddi ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd y disgyblion. Bwriad y Cyngor yw argymhell i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun 'glustnodi' unrhyw swyddi ychwanegol, islaw haen yr Uwch Reolwyr, ar gyfer y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn y lle cyntaf. Mae hynny'n golygu y caiff staff Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn y cyfle cyntaf i gyflwyno cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun estynedig cyn eu hysbysebu'n allanol. O lwyddo yn eu cais, byddan nhw'n trosglwyddo'n hwylus i'r ysgol newydd pan fydd hi'n agor. Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.

## **YSTYRIED YR EFFAITH**

### **11. Pa opsiwn ydych chi wedi'i ddewis o ganlyniad i'ch asesiad o'r effaith?**

- Parhau â'r Polisi

#### **Nodwch resymau ar gyfer eich penderfyniad.**

Mae'r dystiolaeth wedi'i hamlinellu yn ein dogfen ymgynghori yn argymhell mai dyma'r ffordd addas o weithredu.

### **12. CYNLLUN GWEITHREDU**

Bydd angen i chi gwblhau cynllun gweithredu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i amlinellu sut byddwch chi'n gweithredu ar unrhyw effaith sy wedi'i hadnabod. Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu o ran pa gamau gweithredu rydych chi'n eu dewis a'r amserlenni y byddwch chi'n eu dilyn wrth eu cwblhau. Yn gyffredinol, dylech chi weithredu ar bob effaith negyddol oni bai bod yna reswm pam nad yw hyn yn bosibl. Byddai modd i chi hefyd bennu camau gweithredu ar gyfer effaith gadarnhaol neu negyddol ble y bo'n addas e.e. amlinellu a hyrwyddo effaith gadarnhaol neu amlinellu sut i sicrhau effaith gadarnhaol yn lle effaith niwtral.

**CYNLLUN GWEITHREDU – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

Action (Gweithred)	Swyddogion Cyfrifol	Graddfa Amser ar gyfer Camau Gweithredu	Graddfa amser a champau gweithredu i'w hadolygu	Mesurau i'w cymryd i werthuso effeithiau gweithredu
Ymgymryd â'r broses ymgynghori statudol i weithredu'r cynigion os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo	Carfan Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	Erbyn Mawrth 2019		
Cwblhau'r cynlluniau ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo	David Powell, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Dylunio Corfforaethol a Chynnal a Chadw	Erbyn Medi 2019		
Darparu cymorth i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun, yn ôl yr angen, o ran penodi staff i swyddi ychwanegol os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo	Swyddogion AD	Erbyn Medi 2019		

**13. Nodwch isod unrhyw effaith negyddol sydd wedi cael ei hadnabod yn y holiadur ond heb ei nodi yn y cynllun gweithredu. Bydd angen i chi esbonio eich rhesymau am beidio â'i nodi.**

Dim.

Cadwch gopi o'r holiadur a'r cynllun gweithredu ac anfon copïau i:  
Carfan Materion Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach  
CF40 2XX  
E-bost: [cydraddoldeb@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@rhondda-cynon- Taf.gov.uk)  
Ffôn: 01443 424075

Llofnod: Gaynor Davies                      Dyddiad: 30/09/18  
Teitl y swydd: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant



## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

### **Cynnig i newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, diwygio dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun**

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yn rhan o'n cynigion mewn perthynas â'r uchod, rydyn ni'n bwriadu ad-drefnu darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o Ronda Cynon Taf, a fydd yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.

#### Categori iaith yr ysgol

Rydyn ni'n cynnig troi Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, sy'n ysgol ddwy iaith ar hyn o bryd, yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Bydd modd iddi gynnig pob un o'i 231 o leoedd (yn ogystal â'r dosbarth meithrin) i ddisgyblion sydd am dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Y cynnig yw y bydd disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddewis rhieni ) yn trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, a fydd yn cael ei hail-adeiladu gyda rhagor o leoedd os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo. Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun newydd yn cael ei ehangu i gynnwys dalgylch presennol ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn.

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn wedi'i threfnu'n ddwy ffrwd iaith ar hyn o bryd a chaiff rhieni ddewis a fydd eu plentyn yn cael y rhan fwyaf o'i wersi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion (gan gynnwys y dosbarth meithrin) yn y ffrwd Gymraeg wedi cynyddu i 179, tra bod y nifer wedi gostwng i 54 yn y ffrwd Saesneg. Mae 9 dosbarth yn yr ysgol, 6 yn rhai cyfrwng Cymraeg a'r 3 arall yn rhai cyfrwng Saesneg. (*Ffigurau o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion fis Ionawr 2018*).

Rydyn ni hefyd yn cynnig ehangu dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (a hwythau'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Rydyn ni'n cynnig y newidiadau yma i'r dalgylchoedd er mwyn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma. Yr Awdurdod Lleol fydd yn gweinyddu'r broses derbyn disgyblion.

#### Safonau Cyflawniad

Mae'r tablau isod yn nodi cyflawniad ffrydiau Cymraeg (C) a Saesneg (S) Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn mewn perthynas â mesuryddion allweddol cyflawniad addysgol dros y tair blynedd ddiwethaf. Maen nhw hefyd yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen						
	2015 %		2016 %		2017 %	
Pynciau	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	92 (2)	100 (1)	95.2 (1)	90 (3)	96.4 (1)	100 (1)
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywioldeb	100 (1)	100 (1)	100 (1)	90 (4)	100 (1)	100 (1)
Sgiliau laith, a Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg/Cymraeg)	96 (2)	100 (1)	95.2 (2)	90 (3)	96.4 (2)	100 (1)
Datblygiad Mathemategol	96 (1)	100 (1)	100 (1)	90 (3)	100 (1)	100 (1)

Deilliannau Cyfnod Allweddol 2						
	2015 %		2016 %		2017 %	
Pynciau	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)	Ysgol Gynradd Penderyn (C)	Ysgol Gynradd Penderyn (S)
Saesneg	88.2 (3)	100 (1)	94.2 (2)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)
Cymraeg laith Gyntaf	88.2 (3)	Dd/B	94.2 (2)	Dd/B	95.5 (2)	Dd/B
Mathemateg	88.2 (3)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)
Gwyddoniaeth	88.2 (3)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	96.8 (3)	88.9 (4)
Dangosydd Pynciau Craidd	88.2 (3)	100 (1)	94.2 (2)	100 (1)	96.8 (2)	88.9 (4)

*Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarterli wedi'u meincnodi, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.*

### Twf cyfrwng Cymraeg

Os bydd y cynigion yma yn cael eu cymeradwyo, bydd Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn troi'n ysgol cyfrwng Cymraeg a bydd modd iddi gynnig pob un o'i lleoedd i ddisgyblion sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd modd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gynnig lleoedd i 231 o ddisgyblion (yn ogystal â'r dosbarth meithrin), gyda lle i 33 o ddisgyblion ym mhob blwyddyn ysgol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Yr Awdurdod Lleol fydd yn gweinyddu'r broses derbyn disgyblion.

Bydd disgyblion sy'n byw yn Hirwaun ac sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddewis rhieni). Bydd dalgylch

cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn ehangu i gynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun (a hwythau'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ar hyn o bryd). Rydyn ni'n cynnig y newidiadau yma i'r dalgylchoedd er mwyn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Mae galw ychwanegol am leoedd hefyd oherwydd y datblygiadau tai yn yr ardal yma.

Mae cynigion eraill yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn bodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol. Y cynigion yma yw:-

- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, gan greu 60 o leoedd ychwanegol trwy adeiladu bloc o ystafelloedd dosbarth newydd a gwella'r cyfleusterau parcio a chwarae allanol;
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, gan greu 162 o leoedd ychwanegol trwy adeiladu bloc o ystafelloedd dosbarth newydd a neuadd chwaraeon ar wahân sy'n cynnwys ystafelloedd dosbarth ar gyfer cwricwlwm Addysg Gorfforol.

#### Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017–2020

Mae newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd 'Miliwn o Siaradwyr' erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae'r ddogfen yma'n nodi sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu hyrwyddo addysgu'r Gymraeg a sut mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi sut y bydd modd i'r Awdurdod Lleol gynorthwyo Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i gwaith o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae modd gweld a lawrlwytho Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen yma: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>.

Ymhlith y rhestr o gamau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni er mwyn bodloni targedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan gynyddu nifer y plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, mae:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd;
- Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig;

Byddai'r cynnig yn cyfrannu at gyflawni'r targedau yma yn yr ardal yma o'r Fwrdeistref Sirol, trwy newid Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol ddwy iaith i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig, a thrwy hynny, gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.

#### Manteision pellach

Byddai modd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mhenderyn:

- Cynnig y cyfle i drochi'n llwyr yn y Gymraeg i holl ddisgyblion yr ysgol;
- Rhoi'r cyfle i niferoedd uwch o ddisgyblion o'r oedran ieuengaf posibl gael eu trochi'n llwyr yn y Gymraeg;
- Cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer athrawon a staff cymorth y byddai modd i ysgol cyfrwng Cymraeg fwy eu darparu;
- Creu 'trwch' o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg;
- Galluogi datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg bellach yn y sector uwchradd;
- Rhoi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Gwella trefniadau ar gyfer denu a chadw staff.

#### Gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cynnig clwb brecwast bob bore cyn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gweithgareddau ar ôl ysgol yn cynnwys clwb Urdd ar ôl ysgol ddwy noson yr wythnos, yn ogystal â chlwb chwaraeon. Fydd y cynigion yma ddim yn effeithio ar y gweithgareddau yma.

Byddai modd i'r cynigion yma ei gwneud yn bosibl i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn wella ac ehangu'i darpariaeth allgyrsiol, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg.